



Produced thanks to the financial support of Butterfly Conservation's North and South Wales Branches and the Welsh Assembly Government through the Wales Biodiversity Partnership.



Cynhyrchwyd gyda chymorth ariannol Canghennau Gwarchod Glöynnod Byw yng Ngogledd a De Cymru, a Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy Bartneriaeth Bio-Amrywiaeth Cymru.

Further information and advice

Butterfly Conservation
Has a network of expert volunteers and staff that can provide further advice on surveys, monitoring and management for butterflies and moths.

Information on species requirements, including factsheets on rarer species, and membership details can be obtained from the address below or from our website www.butterfly-conservation.org

Welsh Assembly Government
Give grants for conservation management through the Tir Gofal and Tir Cynnal agri-environment schemes. They can be contacted through the local offices, or via the website new.wales.gov.uk

Countryside Council for Wales, Forestry Commission Wales and Environment Agency
Advice on various aspects of the environment is available from their local offices or websites www.ccw.gov.uk www.forestry.gov.uk/wales and www.environment-agency.gov.uk

Local Biodiversity Action Partnerships
Small grants are sometimes available for important butterflies and moths. Contact your local authority and ask for the Biodiversity Officer.

Gwybodaeth a chyngor pellach

Gwarchod Glöynnod Byw
Mae gennym rwydwaith o wirfoddolwyr ac aelodau staff gwybodus sy'n gallu rhoi cyngor pellach ynghylch arolygu, monitro a rheoli glöynnod byw a gwyfynod.

Mae gwybodaeth am ofynion y gwahanol rywogaethau, gan gynnwys ffeithleni ar y rhywogaethau prinnach, a manylion am aelodaeth ar gael o'r cyfeiriad isod neu ar ein gwefan www.butterfly-conservation.org

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi grantiau ar gyfer rheolaeth gadwraethol trwy gynlluniau amaeth amgylcheddol Tir Gofal a Thir Cynnal. Gellir cysylltu â nhw trwy'r swyddfeydd lleol, neu ar y wefan new.wales.gov.uk

Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigo Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd
Mae cyngor ynghylch gwahanol agweddau ar yr amgylchedd ar gael yn eu swyddfeydd lleol neu ar eu gwefannau www.ccw.gov.uk, www.forestry.gov.uk/wales and www.environment-agency.gov.uk

Partneriaethau Gweithredu Bio-Amrywiaeth Lleol
Mae grantiau bach ar gael weithiau ar gyfer glöynnod byw a gwyfynod pwysig. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol a gofynnwch am y Swyddog Bio-amrywiaeth.

Gwarchod Glöynnod Byw
10 Rhos Calvert, Abertawe SA1 6AR
Ffôn: 01792 642972 E-bost: wales@butterfly-conservation.org
www.butterfly-conservation.org

Golygwyd y testun gan Russel Hobson ac aelodau staff a gwirfoddolwyr Gwarchod Glöynnod Byw ar sail taflen wreiddiol a gynhyrchwyd gan Butterfly Conservation a FWAG
Lluniau gan: Paul Pugh,

Gwarchod Glöynnod Byw / Butterfly Conservation
Cwmni cyfyngedig gan warant, wedi'i gofrestru yn Lloegr (2206468)
Swyddfa Gofrestredig: Manor Yard, East Lulworth, Wareham, Dorset, BH20 5QP
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (254937) ac yn yr Alban (SCO39268)
Dyluniwyd ac argraffwyd gan [cellicreative](http://cellicreative.com) 01942 681648



Green-veined White



Brimstone



Speckled Wood



Large Skipper



Brown Hairstreak

Five tips for helping widespread butterflies on the farm

- 1**

Retain and manage any areas of unimproved pasture, rough grassland, or flower-rich patches. Avoid use of pesticides and fertilizers, and leave some areas to grow tall.
- 2**

Maintain permanent grassland strips containing fine-leaved grasses and wild flowers around field margins, along tracks and around farm buildings. Cut once a year or every other year during the autumn to prevent scrub invasion, but leave a few areas uncut, as tussocky grassland will benefit other wildlife. Avoid accidental spray drift or application of fertilizer, slurry or manure.
- 3**

Vary hedge cutting across the farm to provide variety. Cut hedges in rotation so that each section is cut every three years or longer but with some taller, some wider and some free growth - especially at hedge junctions - and retain hedgerow trees. Do not cut too close to the hedge base as many butterflies over-winter in tall or tussocky vegetation. Retain and plant hedgerow trees especially Elms and Oaks.
- 4**

Create sunny rides and glades in farm woodland and leave rough grassy strips around wood edges. Ride edges should be cut piecemeal every few years in autumn. Establishing a scrub margin will provide shelter along the ride.
- 5**

Retain patches of nettles in sunny places. If some patches are cut in mid-July, this creates young growth needed by the summer Small Tortoiseshell caterpillars, whilst older stands are eaten by Comma caterpillars.

Pump awgrym ar gyfer helpu glöynnod byw ar y fferm

- 1**

Dylid cadw a rheoli unrhyw ardaloedd o borfa sydd heb eu gwella, glaswelltir garw neu glytiau llawn blodau. Gochelwch rhag defnyddio plaladdwyr a gwrtaith, a gadewch i rai ohonynt dyfu'n dal.
- 2**

Cadwch sribedi parhaol o laswelltir yn cynnwys glaswelltydd mân eu dail a blodau gwyllt o gwmpas ymylon y caeau, ar hyd lonydd ac o gwmpas adelladau'r fferm. Torwch unwaith y flwyddyn neu bob yn ail flwyddyn yn ystod yr hydref i atal prysgoed rhag ymledu, ond gadewch rai ardaloedd heb eu torri, gan y bydd glaswelltir tuswog yn fuddiol i rywogaethau gwyllt eraill. Gochelwch rhag chwistrellu'n ddamweiniol neu daenu gwrtaith, biswail a thail.
- 3**

Amrywiwch y modd o dorri perthi ar draws y fferm i sicrhau amrywiaeth. Torwch berthi ar gylchdro fel bod pob darn yn cael ei dorri bob yn drydedd flwyddyn neu fwy, gan adael rhai'n dalach, rhai'n llydan a pheth tyfiant rhydd - yn enwedig lle mae gwahanol berthi'n cwrdd - a chadwch y coed sydd yn y perthi. Peidiwch â thori'n rhy agos i waelod y berth gan fod llawer o löynnod byw yn treulio'r gaeaf mewn llystyfiant tal neu duswog. Cadwch y coed sy'n tyfu yn y perthi a phlannwch fwy ohonynt, yn enwedig Llwyffienni a Derw.
- 4**

Sefydlwch rodffeydd a llennyrch heulog yng nghoetir y fferm a gadewch sribedi glaswelltrog garw ar hyd ymylon y coetir. Dylid torri ymylon y rhodffeydd bob yn dipyn yn yr hydref, ond nid bob blwyddyn. Mae sefydlu ymylon prysgog yn creu lloches ar hyd y rhodfa.
- 5**

Cadwch glytiau o ddanadl poethion mewn mannau heulog. Os torwch chi rai clytiau tua chanol mis Gorffennaf, bydd hyn yn creu'r tyfiant ifanc sydd ei angen ar lindys yr Iâr Fach Amryliw yn yr haf, tra bod clystrau hyn yn cael eu bwyta gan lindys yr Adain Garpiog.



Common Blue

Butterfly Conservation
10 Calvert Terrace, Swansea SA1 6AR
Telephone: 01792 642972 Email: wales@butterfly-conservation.org
www.butterfly-conservation.org

Text edited by Russel Hobson and Butterfly Conservation staff and volunteers from an original leaflet produced by Butterfly Conservation and FWAG
Photographs by: Paul Pugh,

Butterfly Conservation
Company limited by guarantee, registered in England (2206468)
Registered Office: Manor Yard, East Lulworth, Wareham, Dorset, BH20 5QP
Charity registered in England & Wales (254937) and in Scotland (SCO39268)

Designed and produced by [cellicreative](http://cellicreative.com) 01942 681648
Printed on 100% recycled paper made from post-consumer waste



Ringlet



Holly Blue



Gatekeeper



Burnet Companion Moth



Red Admiral



glöynnod byw a thir fferm
Sut i hybu glöynnod byw ar y fferm

Butterflies on the farm

Farmland is important for over three-quarters of Welsh butterflies.

This leaflet explains some simple measures that can be taken to encourage the more common butterflies on the farm.

Butterflies & moths need wild plants on which to breed. Many butterfly species, both widespread and rare, breed on farmland. Typically, they now survive only on relatively small areas. They can be encouraged by simple management techniques, in some cases by doing nothing. The first task is to identify suitable or potential areas for butterflies, work out how best to manage them, and then see where additional patches might be created.

Action often needs little or no financial outlay and can save time and money. Responses to positive management practices can be dramatic. Butterflies are easy to see to help assess the impact of farm practices on wildlife. Measures taken to encourage butterflies will also help moths and a wide range of other wildlife.

Every year, butterflies go through one or more breeding cycles, making remarkable changes as they grow from egg to caterpillar to chrysalis to adult butterfly. Although the adults can use a wide range of flowers to obtain nectar, the caterpillars feed only on a restricted range of plants, sometimes on just one species. The Orange-tip caterpillar feeds mainly on Wild Garlic along hedgerows or Lady's Smock in damp pastures.

Typical hedge/grass margin



Orange-tip



Unimproved grassland, containing native grasses and wild flowers, can support more than half of our 42 native species, including several rare and declining species.



Almost any patch of tall grassland containing wild flowers can provide breeding areas for some butterflies.



The **Small Copper** is just one of many widespread butterflies that can thrive in flower-rich grassland. It is also important for several rare and declining species.



The **Holy Blue** is one of our most recognisable species and breeds on Holly and Ivy in hedges, scrub or even around farm buildings.



The **Brown Hairstreak** breeds on new Blackthorn shoots in hedges and requires cutting on rotation. Annual cutting can be very harmful to this declining species.



Bracken slopes



Six-spot Burnet



Dark Green Fritillary



Speckled Wood

Glöynnod byw ar y fferm

Mae tir fferm yn bwysig i fwy na thri chwarter o'r glöynnod byw yng Nghymru.

Mae'r daflen hon yn esbonio rhai o'r mesurau syml y gellir eu cymryd i ddenu a hybu presenoldeb y glöynnod byw mwyaf cyffredin ar y fferm.

Mae angen planhigion gwyllt ar löynnod byw a gwyfynod fel manau bridio. Mae llawer o'r rhywogaethau glöynnod byw, yn brin neu'n gyffredin, yn bridio ar dir fferm. Yn amlach na pheidio heddiw maent yn goroesi ar bocedi cymharol fach o dir. Gellir eu hybu trwy dechnegau rheoli syml, ac weithiau trwy beidio â gwneud dim. Y dasg gyntaf yw darganfod yr ardaloedd sy'n debyg o fod yn addas ar gyfer glöynnod byw, gweithio allan y ffordd orau o'u rheoli, a gweld wedyn ymhle gellid creu ardaloedd ychwanegol newydd iddynt.

Yn aml fe ellir gweithredu heb wario ond ychydig, ac mae'n bosibl arbed amser ac arian. Mae'r ymateb i arferion rheoli positif yn gallu bod yn syfrdanol. Mae glöynnod byw yn fodd gweladwy o asesu effaith arferion y fferm ar fywyd gwyllt. Bydd y mesurau a gymerir i hybu glöynnod byw yn helpu gwyfynod hefyd, ynghyd â rhychwant eang o rywogaethau gwyllt eraill.

Bob blwyddyn mae glöynnod byw yn mynd trwy un neu fwy o gylchredau bridio, gan newid yn aruthrol wrth dyfu o'r y lindysyn i grysalis (chwiler) i löyn byw. Er bod yr oedolion yn gallu casglu neithdar o ystod eang o flodau, mae'r lindysyn yn ymborthi ar ystod gyfyngedig o blanhigion, weithiau ar un rhywogaeth yn unig. Mae lindysyn y Blaen Oren yn ymborthi'n bennaf ar Graf y Geifr ar hyd y perthi neu ar Ffedog y Forwyn mewn porfeydd llai.

Grassland

Any grassland that contains native grasses and wild-flowers can provide good breeding and feeding areas for a range of butterflies. Leys and other seeded pasture seldom offer suitable conditions for butterflies except around their margins. There are three main types of grasslands used by butterflies:

1 These rare but vital wildlife habitats (e.g. limestone or damp grassland) may contain over 25 butterfly species, including some rare or declining ones.

- ◆ The ideal management depends on the situation and management history.
- ◆ Some species prefer shorter (and thus warmer) vegetation while others prefer taller or mixed conditions.
- ◆ Extensive or seasonal grazing are often best because this produces varied turf conditions that are suitable for a range of species.

- 2** Semi-improved grassland, which can be important for some widespread species. Examples include:
- ◆ Wet grassland with rushes for Green-veined White and Orange-tip.
 - ◆ Acid grassland with Sheep Sorrel, fine-leaved grasses and wild flowers for Small Copper, Small Heath and Common Blue.
 - ◆ Neutral grassland with native grasses and wildflowers for Meadow Brown, Common Blue, Ringlet and others species.
 - ◆ Agri-environment scheme grants may be available to manage these habitats.

- 3** Strips and patches of grassland along hedges, ditches and tracks in field corners, orchards and other uncultivated areas. Such grassland is the main breeding area for many butterflies on farmland and can be better in a variety of ways:
- ◆ Generally the vegetation should be left uncut though the growing season to provide nectar sources and food for caterpillars.
 - ◆ Where appropriate, a single cut can take place in August and September, after the peak butterfly season.
 - ◆ Some vegetation should be left uncut to provide over-wintering sites (such as grass tussocks) and there should be only very selective use of pesticides.
 - ◆ Care should be taken to avoid herbicides, slurry or manure getting in to hedge bottoms, and not to plough tight to the boundary.

◆ In other situations, hay cutting may be best, though this often supports a narrower range of species.

◆ There should be no use of fertilisers or pesticides, except for spot-treatment of problem weeds.

◆ If rare butterflies are present, special advice may be needed. (see 'Further information and advice')

◆ Agri-environment scheme grants may be available to manage these habitats.

Hedges, hedge verges and farm tracks

Well managed hedges are lifelines for butterflies, especially if they have a grassy margin with wild flowers.

- ◆ Mixed hedges are best - for example, those with blackthorn can support the rare Brown Hairstreak (in south west Wales), while those with Holly and Ivy suit the Holly Blue.

◆ Hedgerow trees can be important for canopy dwelling species such as the White-letter Hairstreak, which breeds on Elms and the Purple Hairstreak, which breeds on Oak.

◆ Traditional hedge laying provides a variety of hedge structure.

◆ Trimming on rotation every third year provides good structure, sources of nectar and saves money.

◆ Annual winter cutting can be particularly harmful to species that over-winter in hedgerows.

Glaswelltir

Mae unrhyw laswelltir sy'n cynnwys mathau brodorol o wair a blodau gwyllt yn gallu cynnig manau bridio ac ymborthi da i rychwant o löynnod byw. Anaml y mae gwyndynnydd a phorfeydd eraill wedi'u hau'n cynnig amgylchadau addas ar gyfer glöynnod byw, ac eithrio o gwmpas yr ymylon. Tri phrif fath o laswelltiroedd sy'n cael eu defnyddio gan löynnod byw:

1 Caeau glaswelltir heb ei wella sy'n cynnwys glaswelltydd a blodau gwyllt Mae'r ardaloedd bywyd gwyllt prin hyn yn hanfodol bwysig (e.e. calchfaen neu laswelltir llai); gallant lochesu mwy na 25 o fathau o löynnod byw, gan gynnwys rhywogaethau sy'n brin neu'n dirywio.

- ◆ Mae rheolaeth ddelfrydol yn dibynnu ar y lleoliad a'r hanes rheolaethol.
- ◆ Mae llystyfiant byrrach (a thwymach felly) yn well gan rai rhywogaethau, tra bod llystyfiant talach neu gymysg yn well gan eraill.

- ◆ Porfeydd helaeth neu dymhorol sydd orau'n aml, gan eu bod yn creu amryf fathau o dyweirch sy'n addas ar gyfer rhychwant eang o r-wogaethau.
- ◆ Mewn sefyllfaoedd eraill gall lladd gwair fod yn well, er bod hyn yn cynnal ystod fwy cyfyng o rywogaethau.
- ◆ Ni ddylid defnyddio gwrteithiau na phlaladdwyr, ac eithrio i drin pocedi penodol o chwyn problemau.
- ◆ Os oes glöynnod byw prin yn bresennol, etallai y bydd angen cyngor arbenigol (gweler 'Gwybodaeth a chynghor pellach').
- ◆ Gall grantiau cynlluniau amaeth-amgylcheddol fod ar gael i reoli'r cynefinoedd hyn.

2 Glaswelltir wedi'i led-wella, a all fod yn bwysig i rai rhywogaethau cyffredin. Mae'r esiamplau'n cynnwys:

- ◆ Glaswelltir gwylyb â brwyn ar gyfer yr Iâr Wen Wythiennog a'r Blaen Oren.
- ◆ Glaswelltir asidaidd â Suran yr Yd, blodau gwyllt a glaswelltydd mân eu dal ar gyfer y Copor Bach, y Gweundir Bach a'r Glesyn Cyffredin.
- ◆ Glaswelltir niwtral â glaswelltydd a blodau gwyllt brodorol ar gyfer Llwyd y Ddôl, y Glesyn Cyffredin, yr Iâr Fach Fodrwog a rhywogaethau eraill.

- ◆ Gall grantiau cynlluniau amaeth-amgylcheddol fod ar gael i reoli'r cynefinoedd hyn.

3 Stribedi a chlytiau o laswelltir ar hyd perthi, ffosydd a lonydd cartiau, yng nghorneli caeau, perllannau ac ardaloedd eraill heb eu trin. Mae glaswelltir o'r math hwn yn brif fan bridio ar gyfer llawer o fathau o löynnod byw ar dir fferm, a gellir ei wella mewn sawl ffordd:

- ◆ Fel rheol dylid gadael y llystyfiant heb ei dorri trwy gydol y tymor tyfu i ddarparu cyflenwad o neithdar a bwyd ar gyfer lindys.
- ◆ Lle bo'n briodol, gellir torri'r glaswellt unwaith yn mis Awst a mis Medi, ar ôl anterth tymor y glöynnod byw.
- ◆ Dylid gadael peth llystyfiant heb ei dorri er mwyn darparu safleoedd gaeaf (megis tuswau glaswellt), ac ni ddylid defnyddio plaladdwyr ond mewn modd cyfyngedig iawn.
- ◆ Rhaid gofalu na fydd chwynladdwyr, biswail na thail yn cyrraedd bonau perthi, a pheidio ag aredig yn rhy agos at derynau caeau.

Perthi, ymylon perthi a lonydd fferm

Mae perthi sy'n cael eu rheoli'n dda fel rhaff achub i löynnod byw, yn enwedig os oes ganddynt gyron gwelltlog â blodau gwyllt.

- ◆ Perthi cymysg sydd orau – er enghraifft, mae rhai sy'n cynnwys Drain Duon yn gallu cynnal y Brithribin Brown prin (yn ne orllewin Cymru), tra bod perthi â Chelyn a lorwg yn addas ar gyfer Glesyn y Celyn.

◆ Mae coed mewn perthi'n gallu bod yn bwysig i rywogaethau sy'n byw yn y canopi megis y Brithribin Gwyn, sy'n bridio ar Lwyfenni, a'r Brithribin Porffor, sy'n bridio ar Dderw.

◆ Mae brigdorri bob yn drydedd flwyddyn yn hyrwyddo strwythur dda a ffynonellau neithdar, ac yn arbed arian.

◆ Mae gosod perthi yn y modd traddodiadol yn creu amrywiaeth yn eu strwythur.

◆ Mae torri perthi bob gaeaf yn gallu bod yn arbennig o niweidiol i rywogaethau sy'n treulio'r gaeaf mewn perthi.

Upland and coast

Many of our rarest butterflies can be found on the coasts or in the uplands.

- ◆ Areas with Bracken and wild flowers on the coast or edges of the uplands are particularly important.

◆ Many of our rapidly declining Fritillary butterflies depend on Bracken with Dog-violets and other wildflowers.

◆ Rotational cutting of Bracken helps prevent the dead litter becoming too thick.

Farmland moths

Moths are closely related to butterflies but there are far more species and they live in a greater range of places. Many moths fly at night but several colourful species fly during the day, like the Six-spot Burnet below.

The numbers of individuals and species of moths is improved by the presence of hedgerows, trees and woodlands on the farm. Moths and their caterpillars are major food for birds, bats and other mammals, and adults are important pollinators of wild flowers and some trees.

Woodlands and scrub

Farm woodlands are home to many butterflies, especially if they contain a range of broad-leaved trees and wide sunny woodland rides or glades.

The rides should be as wide and open to sunlight as possible. Cut the central section of rides in summer or autumn, but try to leave a scrubby edge and cut these in sections on rotations of 2-8 years.

Gwyfynod tir fferm

Mae gwyfynod yn perthyn yn agos i löynnod byw, ond mae llawer mwy o rywogaethau ac maent yn byw mewn rhychwant llawer mwy eang o leoedd. Mae llawer o wyfynod yn hedfan gyda'r nos, ond mae nifer o rywogaethau lliwgar yn hedfan yn ystod y dydd, megis y Bwrned Chwe Smotyn uchod.

Mae nifer yr unigolion a'r gwahanol rywogaethau yn gwella os oes perthi, coed a choetiroedd ar y fferm. Mae gwyfynod a'u lindys yn eitem fwyd o bwys i adar, ystumod a mamolion eraill, ac mae'r oedolion yn elfen bwysig iawn o ran peillio blodau gwyllt a rhai coed.

Coetiroedd a phrysgoed

Mae coetiroedd ar dir fferm yn gartref i lawer o löynnod byw, yn enwedig os ydynt yn cynnwys ystod o goed llydandail a rhodfeydd llydan neu lennyrch heulog.

Dylai'r rhodfeydd fod mor llydan ac agored i oleuni'r haul â phosibl. Torrwch rannau canolig y rhodfeydd yn yr haf neu'r hydref, gan geisio gadael ymylon prysgog, a thorrwch ddarnau o'r rhain ar gylchdro o bob 2-8 blynedd.